**CFA20 Unigolyn 08**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Unigolyn 08 | Evidence from: Individual 08

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Yr agwedd negyddol. Wrth ddiolch i berchennog mewn siop yn Gymraeg, yn rhy aml, rwy'n cael wyneb ddryslyd yn nol. Teimlaf fod angen mwy o Gymraeg mewn llefydd cyhoeddus yn ogystal ar raglenni deledu Saesneg er mwyn cael mwy o adnabyddiaeth a derbyniad o bobl sy'n ddi-Gymraeg, yn enwedig y Saeson. Ond hefyd mae angen mwy o gymorth ar staff adrannau Cymraeg ail-iaith ysgolion er mwyn newid yr agwedd negyddol o'r b^on.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Eto, derbyniaeth o'r rhai sy ddim yn siarad Cymraeg.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

Gwnaeth Eisteddfod Pontypridd gwneud gwahaniaeth mawr iawn, am gyfnod o amser ond erbyn nawr mae popeth wedi dychwelyd i safonau cyn yr Eisteddfod lleol gan y rhan fwyaf yn fy marn i.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

Opsiynau Iaith Gymraeg ar raglenni cyfrifiaduron megis Microsoft ac ati. Fel person sy'n gweithio trwy gyfrwng Y Gymraeg mae gen i liniadur gwaith sydd a'r rhaglenni yn Gymraeg ond nid ar fy ngliniadur personol.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Yn dda iawn am ychydig o amser ar ol y digwyddiad ond dim digon, yn fy marn i, i wneud gwahaniaeth hir dymor.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

Arian tuag at gefnogi'r iaith!

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mwy o gefnogaeth i ysgolion cyfrwng Saesneg - mwy o orianu i ddysgwyr, mwy o staff er mwyn cynnyddu adrannau. Ro'n i'n after dysgu hanner ysgol uwchradd mewn adran o ddau - pa fath o adlewyrchiad yw hwnna pan dyn ni'n ceisio gwneud ein gorau glas i gynnyddu defnydd yr iaith ac i godi ei phwysigrwydd.